

Canllawiau Cynllunio Atodol

# Carafanau, Cabanau a Gwersylla



Cyngor Sir Ddinbych  
Cynllunio Strategol a Thai  
Gorffennaf 2018

# Cynnwys

1. Cyflwyniad	2
2. Statws a Chyfnodau Paratoi	2
3. Cefndir	2
4. Polisi Cynllunio	5
5. Gwelliannau i Safleoedd Presennol	5
6. Safleoedd Newydd	6
7. Gofynion Datblygu	6
8. Canllawiau Dylunio	9
9. Defnydd Gwyliau	11
10. Storio Carafanau	12
11. Cysylltiadau	13
Atodiad 1 – Polisiâu'r Cynllun Datblygu Lleol	14

## 1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae'r Nodyn hwn yn un o gyfres o Nodiadau Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA), sy'n ymhelaethu ar bolisiau'r cynllun datblygu a materion eraill mewn ffordd glir a chryno gyda'r nod o wella dyluniad ac ansawdd datblygiadau newydd. Bwriad y Nodiadau yw cynnig canllawiau bras a fydd o gymorth i aelodau'r cyhoedd a swyddogion mewn trafodaethau cyn cyflwyno ceisiadau cynllunio ac o gymorth i swyddogion wrth ymdrin â cheisiadau cynllunio ac aelodau wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

## 2. STATWS A CHYFNODAU PARATOI

- 2.1 Nid yw CCA y Cyngor yn rhan o'r cynllun datblygu a fabwysiadwyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus a chymeradwyaeth ddilynol yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI), gellir trin y CCA fel ystyriaeth gynllunio berthnasol pan fydd ACLI, Arolygwyr Cynllunio a Llywodraeth Cymru yn penderfynu ar geisiadau cynllunio ac apeliadau. Cafodd y ddogfen CCA ei chymeradwyo'n ffurfiol gan Bwyllgor Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych ar 18 Gorffennaf 2018.
- 2.2 Paratowyd y nodiadau hyn yn unol â'r canllawiau sydd wedi eu cynnwys ym Mholisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9), Cynlluniau Datblygu Lleol Cymru (Rhagfyr 2005); a Nodiadau Cyngor Technegol Llywodraeth Cymru.

## 3. CEFNIDIR

- 3.1 Mae Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol Sir Ddinbych (2013-2023) yn cydnabod y cyfraniad y mae twristiaeth yn ei wneud i'r Economi lleol ac yn awyddus i gynyddu'r gwerth sy'n deillio o'r ddarpariaeth yn y sir. Fel rhan o hyn, mae'r Strategaeth yn nodi angen i wella ansawdd a nifer y llety i ymwelwyr drwy gydol y sir. Mae'r

Strategaeth hefyd yn amlygu'r angen i hyrwyddo economïau gwledig cynaliadwy tra'n cydbwysu datblygiad gyda gwarchod yr amgylchedd naturiol.

3.2 Mae Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych (CDLI) yn ceisio darparu cyfleoedd i ddatblygu meysydd carafanau, cabannau a gwersylla mewn modd sensitif ac anymwthiol. Fe allai fod yna fwy o alw am ddatblygiadau o'r fath mewn ardaloedd sydd â gwerth golygfaol uwch ac ar yr arfordir. Bydd amddiffyn ansawdd a gwerth yr ardaloedd hyn, ynghyd â gwarchod natur a'r amgylchedd hanesyddol yn brif ystyriaeth wrth asesu cynigion, yn ogystal ag effeithiau posibl ar briffyrdd a'r gymuned leol.

3.3 Mae'r Cyngor yn cydnabod y cynnydd yn y mathau o lety gwyliau sydd ar gael yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig y rhai sydd yn cynnwys ffurfiau newydd o lety gwyliau statig a 'glampio' (h.y. gwersylla moethus), a'r posibilrwydd am ragor o fathau newydd o lety yn y dyfodol. O ystyried diffyg diffiniad safonol ar gyfer y mathau yma o lety, bydd y Cyngor yn defnyddio'r diffiniadau presennol sydd i'w gweld yn Saesneg yn Neddf Safleoedd Carafanau a Rheoli Datblygu 1960 wrth benderfynu ar yr ymagwedd polisi i'w ddefnyddio:

*"... any structure designed or adapted for human habitation which is capable of being moved from one place to another (whether by being towed, or by being transported on a motor vehicle or trailer) and any motor vehicle so designed or adapted but does not include:*

- a) Any railway rolling stock which is for the time being on rails forming part of a railway system, or*
- b) Any tent."*

Cafodd y diffiniad hwn ei addasu gan Adran 13 (1) o Ddeddf Safleoedd Carafanau 1968 ("Deddf 1968), sydd yn ymdrin â charafanau "twin-unit":

*“A structure designed or adapted for human habitation which:*

*a) Is composed of not more than two sections separately constructed and designed to be assembled on a site by means of bolts, clamps or other devices; and*

*b) Is, when assembled, physically capable of being moved by road from one place to another (whether by being towed, or by being transported on a motor vehicle or trailer), shall not be treated as not being (or not having been) a caravan within the meaning of Part 1 of the Caravan Sites and Control of Development Act 1960 by reason only that it cannot lawfully be moved on a highway when assembled.”*

Felly bydd cabanau, chalets, podiau a strwythurau eraill tebyg sydd yn disgyn mewn i'r diffiniad hwn yn cael eu trin fel carafanau statig. Bydd iyrtau, tîpis a strwythurau 'pabell foethus' tebyg eraill yn cael eu trin yn yr un modd â safleoedd gweryslla o dan bolisi HEG 12 y Cynllun Datblygu Lleol 12 'Chalets, Carafanau Statig a Theithiol a Safleoedd Gweryslla'.

- 3.4 Pwrpas y CCA hwn yw rhoi arweiniad ar gynigion ar gyfer meysydd carafanau, cabanau a gweryslla fel llety gwyliau. Ar gyfer eglurhad, y diffiniad o 'wyliau' ydi cyfnod o hamdden i ffwrdd o'ch prif gartref pan nad oes unrhyw waith yn cael ei wneud. Mae 'hawliau datblygu a ganiateir' penodol yn bodoli mewn perthynas â gosod carafanau ar dir (e.e. cadw carafán o fewn cwrtil annedd), lle na fyddai angen caniatâd cynllunio. Os ydych yn dymuno gosod a chael gwyliau mewn carafán (neu unrhyw fath arall o adeiledd gan gynnwys siediau a hafdai) ar dir nad oes iddo ddefnydd preswyl – e.e. defnydd amaeth, marchogaeth neu goedwigaeth – byddai hyn fel arfer yn gyfystyr â newid defnydd y tir ac mae angen caniatâd cynllunio ar gyfer hynny, oni bai fod carafán / adeiledd yn cael ei symud o fewn 28 diwrnod o'i osod yno. Dylid gofyn am gyngor pellach gan Dîm Rheoli Datblygu'r Cyngor ar achosion lle gallai fod yn berthnasol.

## 4. POLISI CYNLLUNIO

- 4.1 Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn amlinellu nod Llywodraeth Cymru i *'dwrastiaeth dyfu mewn modd cynaliadwy a gwneud cyfraniad cynyddol i les economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru'*. Mae PCC hefyd yn cydnabod bod llawer o'r ddarpariaeth bresennol o lety twristaidd wedi'i leoli mewn lleoliadau trefol ac efallai bod angen, mewn rhai ardaloedd, cyfyngu datblygiadau newydd oherwydd effeithiau amgylcheddol ac amwynder. Mewn ardaloedd gwledig, mae'n cydnabod y gall datblygiad yn ymwneud â thwrastiaeth fod yn elfen hanfodol i economi leol gynaliadwy ond y dylai gyd-fynd â natur a graddfa'r amgylchedd lleol.
- 4.2 Mae Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 13 Llywodraeth Cymru 'Twristiaeth' yn cydnabod pwysigrwydd llety carafán a chabanau ar gyfer y sector hunanarlwyo a'u cyfraniad i'r economi leol ond mae'n nodi y gallant fod yn ymwithiol yn y tirlun ac mae angen rhoi ystyriaeth arbennig i gynigion am feysydd newydd ac ehangach.
- 4.3 Mae'r CCA drafft hwn yn atodiad i bolisi Hyrwyddo Economi Gynaliadwy (HEG) 12 y CDLI, 'Cabanau, Carafanau Sefydlog a Theithiol a Safleoedd Gwersylla', ac yn cyfeirio at bolisiau HEG 5, 'Economi Wledig', HEG 11, 'Datblygiadau Twristiaeth Newydd Mawr', a HEG 14, 'Twristiaeth Gweithgareddau Awyr Agored', lle bo'n berthnasol.

## 5. GWELLIANNAU I SAFLEOEDD PRESENNOL

- 5.1 Mae Polisi HEG 12 yn cefnogi gwelliant amgylcheddol meysydd carafanau sefydlog a chabanau, ar yr amod fod cymeriad ac ymddangosiad yr ardal yn cael eu diogelu, ac y byddai unrhyw gynnydd bwriedig yn y niferoedd yn cynnal neu'n gwella lleoliad tirlun y safle.

Os cynigir cynnydd yn y niferoedd, bydd gofyn i'r ymgeisydd arddangos sut y mae hyn yn fuddiol i'r safle, ei fod yn gynnig gwirioneddol i leihau effeithiau amgylcheddol ac nad yw'n ymgais i greu ardaloedd ychwanegol ar gyfer datblygu o fewn y safle.

- 5.2 Bydd cynigion i wella meysydd carafanau teithiol a gweryslla presennol yn cael eu cefnogi lle bo gofynion polisi HEG 5 yn cael eu bodloni.

## 6. SAFLEOEDD NEWYDD

- 6.1 Yn unol â pholisi HEG 13, ni fydd cynigion ar gyfer meysydd carafanau sefydlog newydd yn cael eu caniatáu.
- 6.2 Mae Polisi HEG 12 yn cefnogi cynigion ar gyfer meysydd carafanau teithiol a gweryslla yn amodol ar feini prawf manwl yn ymwneud ag effeithiau gweledol/ tirlun ac amgylcheddol, a gorgrynoadau o ddatblygiadau tebyg.
- 6.3 Bydd cynigion am feysydd newydd sy'n cynnwys mathau eraill o lety twristaidd, trwy drawsnewid ac adeiladu o'r newydd, sy'n cynnal yr economi wledig yn cael eu cefnogi yn amodol ar fodloni'r meini prawf ym mholisi HEG 5. Lle mae datblygiadau cabanau newydd yn cael eu cynnig fel rhan o gynnig twristiaeth gweithgareddau awyr agored (polisi HEG 14), bydd hyn yn cael ei ganiatáu lle gellir arddangos bod diffyg llety twristaidd i gefnogi'r datblygiad, ac nad oes unrhyw gyfleoedd i ddefnyddio neu drosi adeiladau presennol yn y lle cyntaf.

## 7. GOFYNION DATBLYGU

- 7.1 Rhaid i gynigion am unrhyw feysydd carafanau (sefydlog a theithiol), cabanau a gweryslla fynd i'r afael â'r gofynion canlynol:
- 7.2 Priffyrdd

Bydd meysydd newydd ac estynedig yn cael effaith ar y rhwydwaith ffyrdd lleol a bydd yr ystyriaethau canlynol yn berthnasol:

- Mae'n rhaid bod gan safleoedd isadeiledd cludiant da ac ni ddylent effeithio ar lif traffig diogel a rhydd.
- Yn ddelfrydol, bydd yn rhaid bod gan feysydd fynediad uniongyrchol i ffordd ddosbarth A neu B, i osgoi rhoi pwysau afresymol ar ffyrdd sirol llai.
- Yn ddelfrydol dylai meysydd fod wedi eu gwasanaethu gan lwybrau troed a llwybrau beicio – lle nad yw hyn yn bosibl, rhaid i'r Cyngor fodloni ei hun y gall cerddwyr a beicwyr fynd i mewn ac allan o'r safle yn ddiogel;
- Bydd yn rhaid i feysydd fod o fewn pellter cerdded rhesymol i wasanaeth cludiant cyhoeddus sy'n gwasanaethu canolfannau lleol – lle nad yw hyn yn bosibl, efallai y bydd yr ymgeisydd yn dymuno archwilio'r dewis o gyfrannu tuag at roi cymhorthdal i wasanaeth cludiant cyhoeddus i'r safle;
- Lle bod angen, efallai y bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd gyflwyno Asesiad Cludiant.

### 7.3 Tirlun a'r Amgylchedd

Bydd effaith meysydd ar y dirwedd yn ffactor sylweddol y bydd angen rhoi ystyriaeth benodol iddo wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio, ochr yn ochr ag amwynder gweledol a threftadaeth naturiol ac adeiledig. Mae hyn yn arbennig o berthnasol ar gyfer cynigion o fewn tirwedd a ddiogelir yn genedlaethol yr AHNE neu ei leoliad. Dylai cynigion gael eu llywio gan Werthusiad neu Asesiad o'r Effaith ar y Dirwedd ac o'r Effaith Weledol, a bydd yr angen i geisiadau cynllunio gael eu cefnogi gan ddogfennau o'r fath yn cael eu trafod yn y cyfnod cyn ymgeisio. Dylai cynigion roi sylw i'r canlynol:

- Rhaid i raddfa datblygiad barchu ei amgylchedd cyfagos;
- Ar y cyfan, bydd datblygiad mwy ond yn cael eu caniatáu o fewn neu'n gyfagos i anheddau;
- Rhaid datblygu cynigion mewn lleoliadau gwledig mewn modd sensitif.



- Dylid lleoli cynigion mewn modd sy'n osgoi nenlinellau, ochr bryniau amlwg neu safleoedd agored.
- Fel rheol, dylid gosod cynigion mewn cefn gwlad agored o flaen cefndir o goed rhannol aeddfed/ aeddfed neu mewn lleoliadau coetir. Ni fydd meysydd lle mae angen sgrinio cynhwysfawr drwy blannu coed newydd yn briodol;
- Dylai cynigion barchu topograffi'r safle a dylid cadw lefelau safle presennol lle bo modd. Lle mae angen newidiadau bychan i lefelau mewn rhan o safle bwriedig, rhoddir ffafriaeth i dorri i mewn i lethrau yn hytrach na chreu platfformau ar gyfer adeiladu;
- Rhaid cynnwys cynllun tirweddu cynhwysfawr gyda phob cais cynllunio;
- Dylid craffu'n fanwl ar ddynodiadau amgylcheddol ledled y sir. Yn unol â chanllawiau cenedlaethol, ni chaniateir cynigion mewn ardaloedd gyda pherygl llifogydd;
- Er mwyn datblygu o fewn yr AHNE neu ei leoliad, dylai datblygwyr roi sylw i Gynllun Rheoli'r AHNE a'r angen i gadw a gwella rhinweddau arbennig y dirwedd a ddiogelir. Mae ystyriaethau tebyg yn gymwys i Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte a'i glustogfa.

7.4 Yn unol â pholisi HEG 12, ni ddylai cynigion datblygu arwain at orgrynhoad o feysydd mewn unrhyw ardal benodol fel ei fod yn gwaethygu'r amwynder tirlun neu breswyl. Efallai y bydd gofyn i geisiadau gynnwys Aseiad neu Werthusiad o'r Effaith ar y Dirwedd ac o'r Effaith Weledol.

7.5 O fewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (ANHE) Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, dylid defnyddio lliwiau sydd yn sensitif i'r amgylchedd ar gyfer pob carafán newydd, ac mae palet o'r lliwiau ar gael.

#### 7.6 Y Gymraeg

Yn unol â pholisi PNU 5 'Yr Iaith Gymraeg a Gwead Cymdeithasol a Diwylliannol Cymunedau', gellid gwrthod unrhyw ddatblygiad sy'n

achosi niwed arwyddocaol i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned. Fel rheol, bydd disgwyl i ymgeiswyr gyflwyno Datganiad Ieithyddol Cymunedol ar gyfer cynigion twristiaeth (sydd yn cynnwys y mathau o lety gwyliau sydd wedi'u cynnwys yn y CCA hwn) mewn pentrefi, pentrefannau neu gefn gwlad agored sydd ar arwynebedd o 1000m<sup>2</sup> neu ragor. Dylid cynnwys Asesiad Effaith Cymunedol ac Ieithyddol mwy manwl gyda cheisiadau twristiaeth o 3000m<sup>2</sup> neu ragor. Darperir arweiniad pellach yn y CCA 'Cynllunio a'r Iaith Gymraeg' (2014) a fabwysiadwyd gan y Cyngor.

## 8. CANLLAWIAU DYLUNIO

### 8.1 Dwysedd

Dylai cynigion sydd wedi eu lleoli i ffwrdd o adeiladau presennol fod o ddwysedd isel gyda gwahanu digonol rhwng yr unedau. Mewn lleoliadau gwledig dylai hyn gyd-fynd â natur yr amgylchedd a sicrhau bod y cymeriad yn parhau i fod yn agored ac yn wledig. Bydd datblygiad dwysedd isel hefyd yn darparu amwynder a phreifatrwydd o safon dda i breswylwyr. Dylai dwysedd meysydd a phellteroedd gwahanu rhwng carafanau gael eu nodi drwy'r amodau drwydded safle a dylai gyd-fynd â'r Safonau Enghreifftiol (1983 a 1989) ar gyfer safleoedd carafanau, safonau diogelwch a gofynion iechyd ac amwynder. Y pellteroedd gwahanu lleiaf fydd 5-6 metr fel rheol, yn dibynnu ar ddeunydd y garafán, gydag o leiaf 3 metr i wahanu rhwng yr adlenni. Dylid cadw ardal 3 metr o led yn glir o fewn bob terfyn.

### 8.2 Cynllun

Ni fydd cynllun o fath maestrefol yn dderbyniol mewn lleoliadau gwledig. O fewn lleoliadau gwledig, dylai fod gan feysydd gynllun agored, heb unrhyw gwrtil wedi'i ddiffinio'n ffurfiol rhwng yr unedau. Yn hytrach na chwrtillau ffurfiol, byddwn yn annog cael cynllun tirlunio integredig o ansawdd uchel ar gyfer y safle cyfan. Dylid cynnwys ardaloedd agored ar gyfer hamdden ffurfiol fel rhan o gynllun y safle.

Fel rhan o'r tirlunio a'r cynllun cyffredinol ar safleoedd mawr, dylid rhannu'r safle yn glystyrau llai.

### 8.3 Ffyrdd a Pharcio

Dylai ffyrdd mynediad a'r cynllun ffyrdd mewnol adlewyrchu cymeriad yr ardal, yn arbennig mewn lleoliadau gwledig gydag arwyneb caled ffurfiol. Mewn sawl achos, efallai y bydd datrysiadau llai ffurfiol (e.e. graean / naddion pren, dim cyrbiau uwch) yn fwy priodol a bydd y Cyngor yn annog hyn. Dylai lleoedd parcio fod wrth ochr neu'r tu ôl i unedau unigol ac i ffwrdd o'r prif ddrychiad. Dylid osgoi lleoedd parcio mawr canolog.

### 8.4 Adeiladau Ar y Safle

Mewn cefn gwlad agored, dylai adeiladau ar y safle (llety'r rheolwr, golchdy ac ati) ddefnyddio adeiladau presennol. Lle nad yw hyn yn bosibl, byddwn ond yn caniatáu adeiladau newydd ar y safle lle mae eu hangen i sicrhau gweithrediad effeithiol y safle. Dylid sicrhau eu bod yn cael cyn lleied a phosibl o effaith gweledol drwy osodiad a dyluniad diogel.

### 8.5 Cynigion Tirlunio

Bydd angen i gynigion tirlunio ddangos sut byddai'r datblygiad yn cael ei integreiddio o fewn ei leoliad, a chadw a gwella nodweddion tirlunio presennol. Fe ddylent gael eu datblygu fel ymateb i ddadansoddiad tirwedd a gweledol y safle ac ar y cyd â chynllunio a dylunio'r datblygiad fel rhan o'r cynnig integredig. Rhaid i bob cais cynllunio gynnwys cynllun tirlunio cynhwysfawr, gan gynnwys cynigion ar gyfer rheoli'r safle a'r ôl-ofal. Dylai cynigion roi sylw i'r canlynol:

- Gosod unrhyw newidiadau i dirffurf, defnyddio strwythurau cynnal a sut bydd y rhain yn cael eu naturioli - ar y cyfan dim ond mân ail siapio'r safleoedd ochr y bryn y dylid eu hystyried oherwydd yr anawsterau o naturioli'r tir moel, llethrau serth a phridd tenau;

- Mae angen defnyddio rhywogaethau planhigion brodorol er mwyn cynnal cymeriad gwledig a chefnogi bioamrywiaeth. Fe allai coed pinwydd yr Alban, pinwydd Corsica, Ywen a Chelyn fod yn addas i ychwanegu rhywfaint o orchudd bytholwyrdd i gymysgedd o blanhigion. Ni fydd coed conwydd sy'n tyfu'n gyflym yn dderbyniol;
- Bydd angen plannu, amddiffyn, sefydlu a chynnal manylion ar gyfer planhigion newydd;;
- Dylai ffiniau newydd roi sylw i draddodiadau brodorol lleol e.e. gwrychoedd, waliau sychion ac ati;
- Bydd gorffeniadau i gyfansoddion tirlunio caled yn cael eu nodi gan gynnwys ffyrdd, llwybrau a strwythurau cynnal;
- Gall defnyddio deunyddiau naturiol ac arlliwiau helpu i integreiddio adeiladau o fewn lleoliadau gwledig;
- Byddai angen cynllun rheoli ar gyfer gwrychoedd, coed a choetir sydd yn berchen i'r ymgeisydd, pan fydd y rhain yn bwysig i gymeriad ac i integreiddio'r datblygiad (fel rheol yn 25 mlynedd dros oes y datblygiad);
- Yn gyffredinol, dylid cael cyn lleied â phosibl o oleuadau a lle bod eu hangen, dylid eu dylunio fel eu bod yn lleihau llygredd golau drwy ddefnyddio golau lefel isel, dwysedd isel sydd yn cynnwys bafflau a/neu wedi'u cyfeirio er mwyn osgoi taflu'r golau tuag i fyny. Dylai'r lefelau golau gyrraedd y lefelau gofynnol i fodloni anghenion y lleoliad. Dylai ceisiadau cynllunio gynnwys cynllun golau sydd yn dangos sensitifrwydd i'r ardal ac yn darparu manylion o fesurau i leihau llygredd golau, gan gynnwys tymheredd lliw yr unedau golau arfaethedig.

## 9. DEFNYDD GWYLIAU

- 9.1 Mae manteision i ymestyn y tymor twristaidd y tu hwnt i'r adegau gwyliau traddodiadol o'r flwyddyn o ran yr economi leol a gall helpu lleihau effeithiau cyflogaeth dymhorol. Er mwyn sicrhau y defnyddir llety twristaidd at y diben y'i fwriadwyd, ac fel nad yw'n dod yn rhan o'r

stoc tai lleol drwy breswyliaid parhaol heb ei awdurdodi, bydd y Cyngor yn gosod amodau meddiannaeth pan y rhoddir caniatâd cynllunio. Ar gyfer meysydd carafanau a chabanau, bydd gofyn i berchnogion/gweithredwyr meysydd gynnal cofrestr wedi'i diweddarau o enwau a chyfeiriadau cartref perchennog/ preswlydd pob uned unigol ar y safle, a ddylai fod ar gael i'r Cyngor. Mae'r amod canlynol yn cael ei weithredu gydag unrhyw ganiatâd o'r fath ar hyn o bryd:

*'Bydd deiliad trwydded y safle garafannau neu ei unigolion a enwebwyd yn cadw cofrestr ddiweddar o'r enw(au) a phrif gyfeiriad(au) y perchennog/perchnogion a phrif feddianwyr pob uned gwyliau unigol ar y safle. Bydd y gofrestr hefyd yn cynnwys copïau diweddar yn gofyn am dreth y cyngor sydd yn perthyn i bob prif gyfeiriad a roddwyd. Bydd y gofrestr ar gael i Swyddogion yr Awdurdod Cynllunio Lleol ei archwilio ar bob adeg resymol.'*

*Rheswm: I alluogi'r Awdurdod Cynllunio Lleol i fonitro'r defnydd o unedau gwyliau yn effeithiol i sicrhau nad oes preswyliaid parhaol heb ei awdurdodi yn yr unedau ar y safle.'*

- 9.2 Mae'r Cyngor wedi cyflwyno strategaeth gorfforaethol i fynd i'r afael â'r mater o breswyliaid preswyl heb ei awdurdodi mewn meysydd carafanau gwyliau. Mae archwiliad parhaus o safleoedd yn nodi ble y mae hyn yn digwydd a bydd camau gorfodi yn cael eu cymryd.
- 9.3 Ni chaniateir newid defnydd carafanau sefydlog a chabanau o ddefnydd twristaidd i ddefnydd preswyl. Ni roddir caniatâd chwaith i drawsnewid meysydd carafanau teithiol yn feysydd carafanau sefydlog.

## 10. STORIO CARAFANAU

- 10.1 Gall safleoedd penodol ar gyfer storio carafanau teithiol gael effaith negyddol ar dirlun, yn arbennig os nad yw'r safle bwriedig wedi cael ei sgrinio'n ddigonol. Bydd cynigion o'r fath yn cael eu hystyried yn erbyn

polisiau perthnasol y CDLL, gan gynnwys DG 1 ‘Datblygu Cynaliadwy a Dyluniad o Safon Dda, a HEG 5 ‘Yr Economi Wledig’. Bydd y Cyngor yn cefnogi storio o fewn adeiladau presennol (lle bo hynny’n briodol) i leihau'r effaith ar y tirlun, neu lle mae'r safle wedi ei sgrinio'n dda o olwg y cyhoedd a bod graddfa a natur y cynnig yn briodol ar gyfer y lleoliad. Yn unol â pholisi cenedlaethol, gwrthodir unrhyw gynigion yr ystyrir eu bod yn niweidiol i ansawdd yr AHNE a Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte.

## 11. CYSYLLTIADAU

Cynllunio Strategol a Thai	Rheoli Datblygu
Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd	Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd
Cyngor Sir Ddinbych	Cyngor Sir Ddinbych
Blwch Post 62	Blwch Post 62
Rhuthun	Rhuthun
LL15 9AZ	LL15 9AZ
Ffôn: 01824 706916	Ffôn: 01824 706727
E-bost:	E-bost:
polisicynllunio@sirddinbych.gov.uk	cynllunio@sirddinbych.gov.uk
Trwyddedu	Gwasanaethau Priffyrdd ac
Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd	Amgylcheddol
Blwch Post 62	Blwch Post 62
Rhuthun	Rhuthun
LL15 9AZ	LL15 9AZ
Ffôn: 01824 706311	Ffôn: 01824 706882
E-bost:	E-bost:
trwyddedu@sirddinbych.gov.uk	priffyrdd@sirddinbych.gov.uk

## ATODIAD 1

### Polisiau Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych

#### Polisi HEG 12 – Meysydd Cabannau, carafanau sefydlog a theithiol a gwersylla

Ni chaniateir cynigion ar gyfer meysydd carafanau sefydlog newydd. Fodd bynnag bydd gwelliannau amgylcheddol i feysydd carafanau gwyliau sefydlog presennol neu gabanau drwy ailfodelu, darparu cyfleusterau newydd a drwy dirlunio yn cael eu cefnogi ar yr amod fod y datblygiad yn dderbyniol o safbwynt polisiau'r Cynllun Datblygu Lleol ac yn cyflawni'r meini prawf canlynol:

- i) mae'r datblygiad bwriedig yn cynnal neu'n gwella cymeriad ac ymddangosiad yr ardal; ac
- ii) gellir dangos bod unrhyw gynnydd bwriedig yn nifer yr unedau carafán / caban gwyliau yn cynnal neu wella Lleoliad tirlunio'r safle cyffredinol.

Ni chaniateir newid defnydd carafanau sefydlog neu gabanau o ddefnydd twristaidd i ddefnydd preswyl na thrawsnewid meysydd carafanau teithiol yn rhai sefydlog..

Byddwn yn annog meysydd carafanau teithiol a gwersylla newydd lle mae pob un o'r meini prawf canlynol yn cael eu bodloni:

- i) mae'r safle'n fach o ran graddfa ac yn gymesur â'i leoliad, yn arbennig o fewn ac yn gyfagos i'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol neu'r Ardal o Harddwch Eithriadol, Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte (gan gynnwys y parth clustogi) neu ardaloedd eraill gyda thirlun o bwysigrwydd rhanbarthol; a
- ii) ni fyddai'r datblygiad yn arwain at orgrynhoad o feysydd mewn unrhyw ardal benodol fel ei fod yn gwaethygu'r amwynder tirlun neu breswyl; a
- iii) mae'r datblygiad yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at fioamrywiaeth leol, a'r amgylchedd naturiol ac adeiledig; ac
- iv) ni fyddai'r datblygiad yn ymddangos yn ymwithiol yn y tirlun ac mae o ansawdd uchel o safbwynt cynllun, dyluniad a thirlunio yn unol â'r egwyddorion datblygu, ac nid yw'n cael effaith negyddol ar y briffordd na'r gymuned; Gall rhoi caniatâd cynllunio, lle bo hynny'n briodol, fod yn destun cyflwyno amod preswyl tymhorol.

## Polisi HEG 11 – Datblygiadau twristiaeth newydd o bwys

Bydd cynigion am ffurfiau cynaliadwy o ddatblygiad twristiaeth, o bwys rhanbarthol neu genedlaethol, sy'n diwallu anghenion trigolion ac ymwelwyr yn cael eu cefnogi yn amodol ar ddiwallu'r meini prawf canlynol:

- i) mae'n briodol i'w leoliad ac o fewn gallu'r amgylchedd lleol i ymdopi, yn arbennig o fewn neu'n effeithio ar yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, yr Ardal o Harddwch Eithriadol, Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte (gan gynnwys y parth clustogi) neu ardaloedd eraill o bwysigrwydd tirlun rhanbarthol. yn unol â pholisi cenedlaethol, gwrthodir unrhyw gynigion yr ystyrir eu bod yn niweidiol i ansawdd yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol a'r Safle Treftadaeth y Byd; ac
- ii) mae'r isadeiledd lleol yn gallu ymdopi ag o, neu gellir dangos y gall y datblygiad fynd i'r afael yn llawn â'r diffygion isadeiledd a nodir, ac
- iii) mae o fewn cyrraedd i bob defnyddiwr posibl, yn cynnig cludiant cyhoeddus ar raddfa fawr a phriodol a lle bo modd, mynediad drwy gerdded a beicio, ac;
- iv) bydd yn cefnogi ac ymestyn yr ystod o gyfleusterau sydd ar gael yn y Sir, a;
- v) bydd yn cynorthwyo amcanion adfywio a bioamrywiaeth Sir Ddinbych, a;
- vi) bydd yn defnyddio llafur sydd ar gael yn lleol lle bo modd.

## Polisi HEG 14 - Twristiaeth gweithgareddau awyr agored

Bydd cynigion datblygu sy'n ymestyn neu'n atgyfnerthu darpariaeth dwristaidd y Sir yn y sector gweithgareddau awyr agored yn cael eu cefnogi ar yr amod fod y meini prawf canlynol yn cael eu bodloni:



- i) mae'r datblygiad yn briodol i'w leoliad a gall yr amgylchedd a'r isadeiledd lleol ymdopi ag o, yn arbennig o fewn neu'n gyfagos i'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, yr Ardal o Harddwch Eithriadol, Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte (gan gynnwys y parth clustogi) neu ardaloedd eraill o bwysigrwydd tirlun rhanbarthol. yn unol â pholisi cenedlaethol, gwrthodir unrhyw gynigion yr ystyrir eu bod yn niweidiol i ansawdd yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol a'r Safle Treftadaeth y Byd; ac
- ii) bod ffafriaeth yn cael ei rhoi i drawsnewid neu ail ddefnyddio unrhyw adeiladau presennol addas yn hytrach nac adeiladau newydd; a
- iii) mesurau lliniaru angenrheidiol yn cael eu cynnwys ac na fyddai'r cynigion yn cael effaith annerbyniol ar y gymuned leol; ac
- iv) bydd datblygiad cabanau ar y cyd â thwristiaeth gweithgareddau awyr agored ond yn cael eu caniatáu os dangosir bod angen sylweddol ac nad oes unrhyw gyfleoedd i ddefnyddio neu drawsnewid adeiladau presennol ar gyfer llety twristaidd.

### **Polisi HEG 5 – Yr Economi Wledig**

Er mwyn helpu cynnal yr economi wledig, bydd datblygiadau twristiaeth a masnachol, gan gynnwys arallgyfeirio amaethyddol, yn cael eu cefnogi drwy gydol y Sir yn amodol ar feini prawf manwl, sy'n cynnwys gwneud cyfraniad sylweddol i ddatblygiad cynaliadwy a chydabod statws arbennig yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol / Ardal o Harddwch Eithriadol.

Bydd cynigion cyflogaeth priodol ar gyfer trawsnewid ac adeiladau newydd y tu allan i derfynau datblygu yn cael eu cefnogi ar yr amod fod y meini prawf canlynol yn cael eu bodloni:

- i) mae'r cynnig yn briodol o ran graddfa a natur i'w leoliad; ac
- ii) mae unrhyw adeiladau presennol addas yn cael eu trawsnewid neu eu hail ddefnyddio yn hytrach na chodi adeiladau newydd; ac
- iii) Mae cynigion am adeiladau newydd yn cael eu cefnogi gan achos busnes priodol sy'n nodi y bydd yn cefnogi'r economi leol ac yn helpu cynnal cymunedau gwledig; ac
- iv) o fewn yr AHNE/ AHE, Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte (gan gynnwys y parth clustogi) neu ardaloedd eraill â thirwedd o bwysigrwydd rhanbarthol, yn rhoi ystyriaeth lawn ac yn ceisio gwella natur a nodweddion unigryw'r tirlun lleol. Yn unol â pholisi cenedlaethol, gwrthodir unrhyw gynigion yr ystyrir eu bod yn niweidiol i ansawdd yr AHNE a'r Safle Treftadaeth y Byd.